**LC353**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant 1993, a wnaed er mwyn rhoi Cyfarwyddebau yr UE ar waith, yn cynnwys darpariaeth fanwl mewn perthynas â marchnata hadau, gan gwmpasu materion megis ardystio, samplo a phacio.

Mae'r Rheoliadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn diwygio Rheoliadau 1993 o ganlyniad i ddwy Gyfarwyddeb bellach gan y Cyngor.

Gwnaed Rheoliadau i'r un perwyl yn Lloegr a'r Alban.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

165

Tynnwyd rhai pwyntiau teipograffyddol at sylw'r cyfreithiwr drafftio gan gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

30 Hydref 2001